Presenoldeb Disgyblion.

Hoffwn gymryd y cyfle i atgoffa pob disgybl o bwysigrwydd presenoldeb cyson yn yr ysgol. Mae'n bwysig i bob un barchu pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb i'r ysgol ond hefyd i sylweddoli fod hyn yn bwysig i fyd gwaith wedi iddynt adael yr ysgol. Rhaid mynychu'r ysgol er mwyn cyflawni potensial addysgol.

Ein targed presenoldeb ar gyfer pob disgybl eleni yw isafswm o 95.5% !

Mae'r tabl isod yn dangos gwir effaith presenoldeb cyson. Mae'r berthynas rhwng presenoldeb da a chanlyniadau da yn gwbl amlwg.

Mae'r ysgol yn gwobrwyo presenoldeb da mewn sawl ffordd yn ystod y tymor. Y wobr orau i bob disgybl drwy gynnal canran presenoldeb uchel yw canlyniadau rhagorol a gwell cyfle i lwyddo mewn bywyd.

	100%	**Rhagorol. Llongyfarchiadau.** **Rwyt yn manteisio yn llawn ar dy gyfle i lwyddo yn addysgol.**
	99%	**Gwych!** (Mewn blwyddyn rwyt wedi colli tua 10 gwers.)
	98%	**Da iawn.** Ymdrech dda. (Mewn blwyddyn rwyt wedi colli tua 20 gwers)
	97%	**Da.** (Mewn blwyddyn rwyt wedi colli tua 30 gwers.)

	96%	**Rwyt yn colli peth cyfle i ddysgu** (Mewn blwyddyn mae hyn yn 8 diwrnod ysgol neu 40 gwers)
	95%	**Mae'n anodd dal fyny efo'r gwaith sydd wedi ei fethu.** (Mewn blwyddyn mae hyn yn absenoldeb o 2 wythnos neu 50 gwers)
	94%	**Mae'r absenoldebau yn cael effaith ar dy allu i ddysgu.** (Mewn blwyddyn mae hyn yn 12 diwrnod o absenoldeb neu 60 gwers)
	93%	**Absenoldeb arwyddocaol.** (Mewn blwyddyn mae hyn yn 14 diwrnod ysgol- absenoldeb o 3 wythnos- sy'n 70 gwers.)

	90-92%	**Achos pryder.** Mae'r absenoldebau yn sicr o gael effaith ar dy ganlyniadau a dy allu i lwyddo yn yr ysgol.

	89% ac is	**Presenoldeb gwael iawn.** Mae hyn yn mynd i gael effaith negyddol ar dy ganlyniadau. Yn aml mae disgyblion sy'n Cynnal y lefel yma o bresenoldeb yn datblygu i fod yn droseddwyr nes ymlaen yn eu bywydau.